

## Cofion a chydymdeimlad

- Brawychwyd yr ardal gyfan wrth glywed am farwolaeth Geraint Jones (Llansannan) ddiwedd yr wythnos ddiwethaf a chydymdeimlwn yn fawr â'i fam, Mrs Margaret Jones, a'i chwirydd – Hafwen a Dilys a gweddill y teulu yn eu colled enbyd. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.
- Yn yr un modd, trist iawn oeddem o glywed am farwolaeth Mr Hywel Wyn Davies (Cefn Berain), un a dreuliodd flynyddoedd yn gwasanaethu fel contractiwr yn yr ardal ac a wynebodd ei gyflwr wedi'r ddamwain yn 2009 mor ddi-gŵyn. Roedd ganddo sgwrs ddifyr bob amser a chafodd ofal heb ei ail gan Beryl a'r merched. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â hwy – Beryl, Eiry, Dona a Celi a gweddill y teulu yn eu profedigaeth fawr. Gweddïwn y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am un mor annwyl.
- Cydymdeimlwn hefyd â Beryl Morris (Cefn Berain) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Nansi, yr wythnos ddiwethaf. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd a chyflwynwn hwy oll i ofal Duw gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

## Arian Sasiwn y Chwirydd

Derbyniwyd neges yn diolch am haelioni Chwirydd y Gogledd a gyfrannodd £16,000 tuag at Gasgliad Arbennig y Chwirydd yn 2016.

Cynhelir y Sasiwn yng Nghorwen eleni, a hynny ar ddydd Mercher, Mai 10fed. Eleni eto, bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at Gasgliad Arbennig y Chwirydd.

## I ddod

- **PAWB AT Y PETH Y BO? YMATEB Y CRISTION I GREDOAU GWAHANOL** – Cyfarfod i'r Fro yng Nghapel Llanefydd nos Fercher, Mawrth 22ain am 7.30.
- **“CANWCH GÂN NEWYDD I'R ARGWYDD...”** – Gweithdy caneuon Cymraeg ar gyfer addoliad cyfoes yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Mawrth 25ain o 10.00 – 4.00. Mae'n addas i rai sydd â rhywfaint o brofiad, a'r di-brofiad, y rhai sy'n gerddorol, neu'n dda efo geiriau. I gofrestru, cysylltwch ag Andy Hughes ar 01678 530347 / saintygyuned@btinternet.com.
- **CYMDEITHAS CHWIRYDD BRO ALED** – Noson o dan arweiniad Sarah Dafydd nos Iau, Mawrth 30ain yng Nghapel Llanefydd am 7.00. Croeso cynnes i bawb.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12<sup>fed</sup> Mawrth 2017

Darlleniad y Dydd

1 Pedr 2:1-6

(BCND tud.256 / BCN tud.235)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'r oedfaon heddiw. Wrth i ni geisio'r Arglwydd gyda'n gilydd mewn addoliad, diolchwn iddo am ddod yn gnawd a bod Iesu Grist yn Waredwr llwyr ddigonol ar gyfer ein holl anghenion. Gwyddom fod nifer o'n plith yn wynebu cyfnod digon anodd ar hyn o bryd ac wrth gydymdeimlo, gweddïwn y byddant yn profi nerth yr Arglwydd yn gynhafiaeth, ac y gallwn oll rannu yn hyder cri'r Salmydd: 'Un tlawd ac anghenus wyf fi, ond y mae'r Arglwydd yn meddwl amdanaf. Ti yw fy nghymorth a'm gwaredydd; fy Nuw, paid ag oedi!' (Salm 40:17)

Trwy ddydd Mercher bu'r sôn am y Gyllideb yn llenwi'r newyddion, gyda'r cyfryngau am y gorau yn ceisio dadansoddi pwy fyddai ar ben eu digon, a phwy fyddai'n flin oherwydd y penderfyniadau diweddaraf. Ac os ydych yn tueddu i wrando ar wleidyddion yn trafod y sefyllfa economaidd, byddwch yn gyfarwydd â'r dadleuon a'r safbwyntiau sy'n cael eu gwyntyllu'n gyson o blaid, neu yn erbyn y penderfyniadau a gaiff eu gwneud. Yn gyntaf, mae'r gwleidyddion yn pwysleisio fod yn rhaid cymryd y cam penodol y maent hwy o'i blaid er mwyn sicrhau y bydd pethau'n gwella. Yna, gwelwn wrthwynebwyd yn taro'n ôl trwy ddisgrifio beth yw realiti bywydau pobl fel y mae hi ar hyn o bryd. Ac yn olaf, clywir nifer o sylwebyddion yn egluro fod gwahaniaeth mawr yn aml rhwng yr ystadegau swyddogol a'r argraff y mae'r cyhoedd yn ei gael o'u sefyllfa – hynny yw bod ffigyrau economaidd cadarnhaol ddim o anghenraid yn golygu fod pobl yn profi mwy o arian yn eu pocedi. Ac wrth i ni droi at ein darlleniad ar y cyd o 1 Pedr 2 heddiw, gwelwn nifer o'r elfennau hyn yn codi eu pen mewn gwedd ysbrydol! Mae Pedr yn dangos yr angen ar i bobl Dduw droi cefn ar arferion pechadurus a drygionus gan yn hytrach ddyheu am laeth ysbrydol pur Gair Duw er mwyn iddynt dyfu yn eu ffydd (ad. 1 a 2). Ond nid cyfarwyddiadau moel yn unig sydd ganddo, ond hefyd sylweddoliad o realiti bywyd y Cristnogion y mae'n ysgrifennu atynt. Maent i grefu am faeth o'r Beibl am eu bod wedi profi tiriondeb Duw yn barod wrth ddod i gredu (ad. 3 sy'n adlais o Salm 34:8 'Profwch a gwelwch mai da yw'r Arglwydd.') Ac yn olaf, mae Pedr yn atgoffa'i ddarllenwyr o'r hyn sydd yn wir amdanynt bellach os ydynt wedi dod i berthynas ag Iesu Grist. Waeth sut y maent yn teimlo, na pha mor anodd yw eu bywydau ar hyn o bryd, y gwirionedd yw fod gwerth neilltuol iddynt oherwydd eu bod yn perthyn i'r garreg sylfaen werthfawr – Crist ei hun. Realiti ysbrydol Cristnogion yw ein bod yn feini bywiol – yn rhan o dŷ ysbrydol Duw yn y byd sy'n parhau i dyfu trwy laeth y Gair a'r bywyd sy'n dod i ni trwy'r conglfaen, yr Arglwydd Iesu ei hun. Ac wrth i ni fyfyrion ar hyn, ac ystyried y ffordd yr ydym yn gweld ein hunain, cofiwn eiriau hyfryd Pedr yn adnod 6 – 'a'r hwn sy'n credu ynddo, ni chywilyddir byth mohono.'

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Derwen Deg, a bydd Gwion yn pregethu.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30 (sylwch ar y newid diwrnod).
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher – 15<sup>fed</sup> ➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Mawr, Dinbych (sylwch ar y noson): Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00.
- Iau – 16<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 17<sup>eg</sup> ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Preswylfa, Cefn Meiriadog am 7.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup> ➤ Cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 15<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Mawrth 12fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10. Yna, yn y prynhawn, bydd rhai o'r aelodau yn mynd i'r Hen Ficerdy, Pandy Tudur i gynnal gwasanaeth. Bydd mwy o fanylion y Sul nesaf.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 10.00 (sylwch ar yr amser).

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Saron am 2.00 (sylwch ar y newid amser). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith ac yn gweinyddu'r cymun yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.15. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Gwener – 17<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Mawrth 12fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

### Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 61:1-8 (BCND tud.523 / BCN tud.478)